

CERAMIC SERIES

MADOLINE KEELER

by Mick Casson




Madoline Cansfield went to the Junior Art School in Harrow when she was fourteen years old. There they taught a great variety of subjects ranging from drawing, composition, anatomy and perspective to lettering and the history of art, as well as academic subjects to 'O' level. They believed that specialisation could teach more than just that one speciality; art teachers about more than just art, Madoline adheres to this belief still. When a few years later she entered the Seminar Art School at Harrow for the Intermediate examination the only other student in her year was one, Walter Keeler who recalls the 'gloss' these so much more accomplished 'juniors' had. The Harrow ceramics department in the old building in the High Street was run by Victor Margrie; I was a part time assistant mainly concerned with running the adult evening classes. Madoline recalls that Victor Margrie recruited her once she showed a mild interest in clay rather than fabric printing — pottery students being hard to come by at that time. The intermediate craft subject of pottery began with the making of a hump back mould, an exceedingly slow process, then making a coiled pot and finally throwing from a previously worked out and drawn design. So by 1960 Madoline had embarked on the first phase of her varied influences: Studio Pottery, Bernard Leach's book and Victor Margrie's insistence on the highest standards with an emphasis on design before making. About this time I had the pleasure of teaching drawing classes with all the students studying for the National Diploma in Design. My 'method' consisted simply of bringing in such diverse, difficult, subjects as peas in pods, lumpy potatoes and flint stones and let this talented group get on with it. Their drawings are still vividly in my memory, Madoline's being amongst the best of them. Drawing, in all the meanings of that word, has been central to Madoline Keeler's art and still is; etching was the subject she chose as additional to pottery for NDD.

In 1963 she went to the Royal College of Art. The Ceramics Department had just moved to the Albert Hall and the newly appointed David Queensbury was just beginning to extend the remit to include the artist craftsmen as well as designers. During Madoline's time there Mo Jupp and James Campbell arrived to develop their own work. But for her another world had opened up; design for the ceramics industry. Skill and drawing



were paramount and Madoline learned to make lathe-turned plaster moulds for cast shapes, photo lithography, enamelling and gold lustre amongst other techniques for decoration. Perhaps most importantly she started a serious investigation into colour, painting colour charts and colourways. Her friends were in the fashion department; it was the early 60's, Carnaby Street et al! This different world offered a large vision of ceramics. There was a more overt affinity with her own ancestors whom she had always known had been potters in Sunderland in the 19th Century and probably earlier — descended through the maternal line of Balls and Picksons potters, through to her father. Madoline feels the continuity with this whole tradition increasing to-day. It is significant that when you visit the Keeler household the pots on view not only include brown and blue salt glaze and French wood-fired peasant ware — all vaguely connected with the Leach ethic — but also lustre ware jugs from Northern factories, skillful, fat-shaped thrown out and turned with extruded handles, beautiful in their own different way.



In the late 60's, with Walter Keeler building his reputation and thoroughly immersed in the Harrow studio pottery course, Madoline was bringing up a young family. There was an inevitable gap but not, she insists, a break. She made coiled hanging planters and sold them later to the newly opened Casson Gallery amongst other places. Madoline never stopped making and perhaps this was also an important germinating time for ideas, for reconciling in the back of her mind the two major influences; Studio and Industrial ceramics. When in 1984 their daughter Alice was about four years old Madoline went back to college to do a six weeks research development course at Cardiff College of Art where Peter Starkey headed the BA ceramics team. This proved to be the start of her present phase of work, for although the printed transfers she developed there were not in the end to be her chosen medium, they certainly led on to the techniques she uses now. The techniques and procedures for Madoline Keeler's work are simple enough to describe but have been hard won by trial and error.


The body is in two parts of industrial white earthenware to one part Hyplas 71 ball

clay and porcelain powder china clay (this part being 3 ball clay to one china clay). The shapes are separately thrown and turned in this body and assembled when leather hard, spouts being press moulded and handles extrude. All these are industrial methods but they become softer less precision precise in quality in her hands. The work is biscuit fired to 1140 degrees C with a two hour soak. Masking tape is cut and stuck on to give direction for the painting, dots and other shapes are sponge decorated all in underglaze pigment. The pots are now fired again to harden on the decoration at 750 degrees C. Lastly the glaze firing goes to 1040 degrees C with a fifteen minute soak and a fast cool to 850 degrees C to achieve the brightness she wants. It is simple to write down but extremely painstaking to work out and execute.

What do these pots say to us? Madoline herself says simply "I make domestic ware which I hope is pleasing to use, but which challenges the eye in a controlled fun way" Challenges the eye! Yes, line, drawing, colour — especially the way one colour next to another alters the 'mood' or a coloured shape, chevron, next to another coloured shape, large dot, alters the 'content' to make a pot look mysterious or funny — these are vital to an appreciation of her work. And how about this fun thing? Why did I, who have seen Madoline's work over the years, immediately recognise the joke of the colours and the clown labels? I know they, the Keelers, have had a circus on their land and a Clowns Convention! There is humour in Walter Keeler's work: Madoline's is different, but it is really a shared family humour: Tommy Cooper, Juggling and a love of the bizarre happening.

Madoline's influences now come from anywhere. A pot called Aztec, comes from looking at Pre-Columbian art, obviously. One called Kimono has a much more complex origin — a book perhaps or a radio programme about a word like gaudy not meaning the same to a Roman as to a contemporary European. Finding out about the time influence of the 18th century orient on Europe meant finally for Madoline, experimenting with acid lemon against violet or sulphur yellow against black. She wants to keep you on the edge, stop you getting complacent, just when you think you know a certain piece you notice that the pattern is different in one place, she is playing a game, asking you to share a visual joke.

Madoline started learning early and has been absorbing influences and acquiring skills to add to her natural talent ever since. The corner stone of her work is drawing and colour, and now humour. Oh yes, and by the way — function! They do work well. If you would use a Walter Keeler tea-pot carefully at four o'clock in the afternoon you would use one of Madoline's Keeler's at seven in the morning and feel happy. Can't wait to see what is coming next!



GYFRES GERAMIC


MADOLINE KEELER

gan Mick Casson



Aeth Madoline Cansfield i'r Ysgol Gelf Iau yn Harrow pan oedd hi'n bedair ar ddeg oed. Yno dysgid cryn amrywiaeth o bynciau, yn awrywio o ddarlunio, cyfansoddiad, anatomi a phersbectif i lythrennu a hanes celfyddyd, yn ogystal â phynciau academiaidd hyd at safon. Y gred oedd y gallai arbenigaeth ddysgu mwy na dim ond un arbenigedd ac y gallai athrawon celf ddysgu pethau ar wahân i gelfyddyd yn unig; deil Madoline i lynnu at y gred honno. Ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach pan aeth hi i'r Ysgol Gelf Seminar yn Harrow ar gyfer yr arholiad canolradd, yr unig efrdydd arall yn ei blwyddyn oedd neb llai na Walter Keeler, ac mae ef yn cofio'r 'sgleini' oedd ar y 'rhaf ifanc' llawer mwy cyfarwydd hyn. Roedd adran gerameg Harrow yn yr hen adeilad yn y Stryd Fawr yng ngofal Victor Margrie; roeddwn i'n gynorthwydd rhan-amser a'm prif ddyletswydd oedd rhedeg y dosbarthiadau nos i oedolion. Mae Madoline yn cofio i Victor Margrie gydio ynddi y munud y dangosodd hi fymryn o ddiddordeb mewn clai yn hytrach na phrintio ffabrig - roedd cryn brinder myfyrwyr crochenwaith ar y pryd. Dechreuai crochenwaith fel pwnc celf canolradd gyda llunio mowld cefngrwm, proses hynod o araf, ac yna lestr wedi ei dorchi cyn symud ymlaen i lunio llestr ar y droell gan ddilyn cynllun a oedd wedi ei baratoi ymlaen llaw. Felly, erbyn 1960, roedd Madoline wedi dod dan y cyntaf o'r amryfal ddylanwadau a fu arni: Crochenwaith Stiwdio, llyfr Bernard Leach a chymhelliad taer Victor Margrie i lynnu at y safonau uchaf a'i bwyslais ar gynllunio cyn mynd ati i lunio pethau. Tua'r amser yma, cefais y fraint o fod yn athro ar ddosbarthiadau arlunio gyda phob un o'r myfyrwyr a oedd yn paratoi ar gyfer y Diploma Cenedlaethol mewn Cynllunio. Fy 'null' o ddysgu, yn syml iawn, oedd darparu gwrthrychau amrywiol, anodd, megis pys mewn coden, tatws cnapiog a cherrig caselltr, a gadael i'r grŵp talentog hwn fwrw ymlaen â'u gwaith. Rwy'n dal i gofio eu lluniau'n glir, ac roedd lluniau Madoline ymhlith y goreuon. Bu lluniadu, yn holl amrywiol ystyron y gair, yn ganolog yng nghelfyddyd Madoline Keeler ac mae'n parhau i fod; ysgythru oedd y pwnc ychwanegol a ddewiswyd ganddi ynghyd â chrochenwaith ar gyfer y Diploma Cenedlaethol mewn Cynllunio.

Ym 1963 aeth i'r Coleg Celf Brenhinol. Roedd yr Adran Gerameg newydd symud i Neuadd Albert ac roedd David Queensbury, a oedd newydd gael ei apwyntio, wrthi'n rhoi cychwyn ar ehangu gwaith yr adran i gynnwys artistiaid crefft yn ogystal â chynllunwyr. Yn ystod cyfnod Madoline daeth Mo Jupp a James Campbell yno i ddatblygu eu gwaith. Ond roedd byd newydd wedi ymagor o'i blaen hi; cynllunio ar gyfer y diwydiant cerameg.



Roedd medr a darlunio yn gwbl allweddol a dysgodd Madoline sut i lunio mowldiau plastr drwy eu turnio ar gyfer eu castio, ffoto-lithograffi, enamlo a gloyweddu aur ymhlith technegau addurno eraill. Ond yn bwysicach na dim o bosibl, dechreuodd archwilio lliwiau o difrif yn eu holl agweddau. Yn yr adran ffasiwn yr oedd ei ffrindiau; y chwedegau cynnar oedd hi, Stryd Carnaby ac ati! Roedd y byd gwahanol hwn yn cynnig golwg eang ar gerameg. Daeth yn fwy ymwybodol o'r berthynas rhyngddi a'i hynafiaid; roedd hi bob amser wedi gwybod eu bod wedi bod yn grochenyddion yn Sunderland yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac yn gynt na hynny o bosibl - yr olyniaeth yn dod ar ochr y fam yng nghrochenyddion Balls a Picksons a'i thad hithau yn rhan o'r olyniaeth honno. Teimla Madoline fod parhad yr holl draddodiad hwn fel pe'n dod yn fwyfwy pwysig. Mae'n arwyddocaol pan fydd rhywun yn ymweld â chartref y Keelers heddiw mai nid yn unig llestri gwydredd halen brown a glas a rhai Ffrengig gwledig wedi eu tanio â choed - y cwbl yn dal rhyw gysylltiad ag ethig Leach - sydd i'w gweld, ond hefyd yggiau llystr bach tewion o ffatrioedd Gogledd Lloegr, wedi eu llunio a'u turnio'n fedrus a chyda dolenni wedi eu haldynnu, sydd yr un mor brydferth yn eu ffordd eu hunain.



Ar ddiwedd y chwedegau, pan oedd Walter Keeler yn gwneud enw i'do'i hun ac wedi llwyr ymgolli yn y cwrs crochenwaith stiwdio yn Harrow, roedd Madoline yn brysur yn magu ei theulu ifanc. Roedd bwlch anorod yn ei gwaith, ond mae hi'n mynnu nad oedd toriad llwyr. Byddai'n llunio llestri plannu crog wedi eu torchi ac yna'n eu gwerthu i Oriel Casson, a oedd newydd agor, ymhlith lleoedd eraill. Daliodd Madoline i weithio drwy'r amser a dichon fod y cyfnod hwn yn un gwerthfawr ar gyfer egino syniadau, ac ar gyfer cysoni yng nghefn ei meddwl y ddau brif ddylanwad, cerameg stiwdio a cherameg diwydiannol. Ym 1984, pan oedd eu merch Alice tua phedair blwydd oed, aeth Madoline yn ôl i'r coleg ar gwrw datblygu ymchwil am chwe wythnos yng Ngholeg Celf Caerdydd lle roedd Peter Starkey yn arwain y tim cerameg BA. Dyma fu man cychwyn gwedd bresennol ei gwaith, oherwydd er nad y trosluniau printiedig a ddatblygwyd ganddi yno oedd ei dewis gyfrwng yn y diwedd, buont yn sicr yn gyfrwng i'w harwain at y technegau

y mae'n eu defnyddio ar hyn o bryd. Mae'r technegau a'r amryfal gamau yng ngwaith Madoline Keeler yn ddigon hawdd eu disgrifio ond mae hi wedi eu cyrraedd ar ôl proses hir o arbrofi.

Mae'r clai a ddefnyddir wedi ei wneud o ddau ran o glai gwyn diwydiannol i un rhan o glai eilaidd Hyplas 71 a phowdr caolin porslen (sef tri rhan o glai eilaidd i un rhan o gaolin). Caiff y ffurfiau eu llunio a'u turnio ar wahân yn y clai hwn a'u cyfiosod pan fyddant yn ddigon caled i'w trin heb eu hanffurfio; caiff y pigau eu gwasg fowldio a'r dolenni eu halldynnu. Dulliau diwydiannol yw pob un o'r rhain ond maent yn dod yn esmwythach ac yn llai manwl-gywir eu hansawdd dan ei dwylo. Caiff y gwaith ei danio'n gyntaf i wres o 1440C ac yn ei fwydo am ddwyawr. Defnyddir tâp masgio wedi ei dorri a'i lunio i roi cyfeiriad i'r peintio, ac ysbwng addurno i greu dotiau a ffurfiau eraill mewn lliw tanwydredd. Yna caiff y potiau eu tanio eilwaith i wres o 750C i galedu'r addurniadau yn eu lle. Yn olaf daw'r tanio gwydredd i wres o 1040C gyda throchiad am chwarter awr ac yna'r oeri cyflym hyd 850C er mwyn cael y disgleirdeb y mae hi'n ei geisio. Gwaith hawdd yw rhoi'r cyfan ar bapur ond mae'n waith hynod o drylwyr a llafurus i'w weithio allan a'i gyflawni.

Beth sydd gan y potiau hyn i'w ddweud wrthom? Ateb syml Madoline ei hun yw, "Rwy'n gwneud llestri domestig fydd, gobeithio, yn rhoi pleser i'r sawl sy'n eu defnyddio, ac sydd hefyd yn sialens i'r llygad mewn ffordd hwyllog reoledig." Sialens i'r llygad! Oes, llinell, llun, lliw - yn arbennig y ffordd y mae un lliw wedi ei gyfiosod â'r llall i newid y 'naws' neu ffurf wedi ei liwio, siefron, wedi ei gyfiosod â ffurf arall wedi ei liwio, dot mawr, yn newid y 'cynnwys' ac yn peri i bot ymddangos yn rhyfedd neu'n ddoniol - mae pethau hyn yn allweddol er mwyn gwerthfawrogi ei gwaith. A beth am yr elfen o hwyl? Pam roeddwn i sydd wedi gweld gwaith Madoline drwy'r blynyddoedd, yn gweld jôc y lliwiau a'r labeli clown? Rwy'n gwybod eu bod hwy, y Keelers, wedi cael syrcaes a Chynhadledd Clowniau ar eu tir! Mae hiwmor yng ngwaith Walter Keeler: mae gwaith Madoline yn wahanol, ond mewn gwirionedd hiwmor sy'n gyffredin i'r teulu ydyw: Tommy Cooper, Siwglô a hoffer o ddigwyddiadau rhyfedd ac anghyffredin.

Erbyn hyn gall y dylanwadau ar Madoline darddu o unrhyw le. Canlyniad edrych ar gelfyddyd Cyn-Golymbaidd yw llestr o'r enw Aztec, mae'n amlwg. Mae tarddiad un o'r enw Kimono yn llawer mwy cynhleth - llyfr efallai, neu raglen radio, yn trafod y ffaith nad oedd gair megis 'gaudy' yn golygu yr un peth i'r Rhufeiniaid ag y mae i bobl Ewrop heddiw. Arweiniodd darganfod hanes dylanwad y dwyrain pell yn y ddeunawfed ganrif ar Ewrop, i Madoline, yn y pen draw, arbrofi gydag asid lemwn ar gefndir fioled neu felyn sylffwr ar gefndir du. Mae hi am ein cadw ar bigau'r drain rhag i ni fynd yn ddi-hid a hunan-fodlon; pan ydyn ni ar fin meddwl ein bod yn gyfarwydd â rhyw waith arbennig, rydyn ni'n sylwi fod y patrwm yn wahanol mewn un man, mae hi'n chwarae tric arnom ac yn gofyn i ninnau rannu'r jôc weledol.

Dechreuodd Madoline ddysgu'n ifanc ac mae hi wedi bod yn derbyn dylanwadau ac yn mestroli sgiliau i'w hychwanegu at ei thalent naturiol byth ers hynny. Conglfaen ei gwaith yw dylunio a lliw, ac erbyn hyn hiwmor. O ie, gyda llaw - defnyddioldeb! Ac mae ei llestri'n gweithio'n effeithiol. Lle byddai rhywun yn defnyddio un o debotiau Walter Keeler yn ofalus am bedwar o'r gloch y prynhawn, byddai rhywun yn defnyddio un o rai Madoline Keeler yn berffaith hapus am saith o'r gloch y bore. Allaf i ddim aros i weld beth ddaw nesaf!

